Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Hysbyseb Swydd

Dirprwy Glerc

Crynodeb Swydd

Math o gontract: Parhaol

Patrwm gweithio: Llawn Amser

Dyddiad Cychwyn Hysbysebu: 6ed Chwefror 2020

Cyflog: LC2 band 18 – 23 (£24,313 - £26,999)

Categori'r swydd: Gweithredol

Lleoliad: Caernarfon

Dyddiad Cau'r Hysbyseb: 12.00 p.m., dydd Iau, 20fed Chwefror 2020

Gwybodaeth Bellach

Mae Dirprwy Glerc Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon yn swydd newydd.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynorthwyo Clerc y Dref i gario allan cyfarwyddiadau'r Cyngor Tref. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo efo cynhyrchu'r holl wybodaeth fydd ei angen ar gyfer gwneud penderfyniadau ac i weithredu ar benderfyniadau. Bydd deilydd y swydd yn chwarae rhan allweddol o ran rhedeg gweithgareddau a swyddogaethau'r Cyngor Tref.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus efo profiad o ddarparu cefnogaeth weinyddol o safon uchel, ac efo sgiliau rhifedd, llythrennedd a chyfathrebu ardderchog (Cymraeg a Saesneg). Bydd angen medrusrwydd o safon uchel mewn TGCh a phrofiad o ddelio gyda'r cyhoedd mewn modd proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar y ffôn.

Bydd presenoldeb mewn rhai cyfarfodydd gyda'r nos y Cyngor yn orfodol.

Bydd y Cyngor Tref yn rhoi pob cefnogaeth i'r ymgeisydd llwyddiannus i ddatblygu'n broffesiynol.

Bydd y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ar Saesneg yn hanfodol.

Am becyn gwybodaeth, ffurflen gais , swydd ddisgrifiad a manylion personol, neu am sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Sion Wyn Evans , Clerc Cyngor Tref Caernarfon ar 01286 672 943 neu ar clercydref@cyngortrefcaernarfon.llyw.cymru

Dyddiad Cau – 12.00 p.m., dydd Iau, 20fed Chwefror 2020

Dylai'r ffurflen gais ei hanfon at Sion Wyn Evans, Clerc y Dref, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon, Adeilad yr Institiwt, Allt Pafiliwn, Caernarfon, LL55 1AS